

% o'r holl weithgaredd yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



Gweminarau



13 GWEMINAR
GYDA THEMÂU
CIG COCH

gyda



354
O WYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Diweddariad Fferm Bryn

Lleihau ôl-troed carbon eich fferm – sut mae eraill yn cyflawni hyn?


Y defnydd o dechnoleg bolus i wella cyfraddau cyfloi, y cyfnod lloea a iechyd y fuches ym Moelogan Fawr

Rhwydwaith Arddangos

Fferm Bryn: Gwella effeithlonrwydd buches o wartheg sugno ac adnabod cyfleoedd newydd

Yn hanesyddol, roedd Huw Jones, Fferm Bryn yn gwerthu'r holl loi bíff oddi ar y fferm fel lloi stôr, ond gyda TB yn pwyso mwy a mwy ar feddwl Huw, roedd yn awyddus i asesu gallu'r fferm i besgi gwartheg oddi ar y borfa. Mae Huw yn aelod o grŵp trafod bíff Cyswllt Ffermio ac yn aelod o grŵp Rhagori ar Bori Cyswllt Ffermio, sy'n canolbwyntio ar reoli porfa.

Mae ymgymryd â'r newid hwn wedi golygu bod Huw wedi gorfod canolbwyntio'n llwyr ar fesur glaswellt a gosod isadeiledd pori er mwyn sicrhau dyraniad cywir a'r defnydd gorau. Nodwyd fod angen gwerthu gwartheg erbyn mis Hydref fan hwyrach er mwyn sicrhau bod y llwyfan bori'n cael digon o amser i adfer er mwyn pori yn y gwanwyn. Gyda hyn mewn golwg, gosodwyd targed o gynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG) o 1kg ac mae Huw wedi bod yn pwyso'r gwartheg yn rheolaidd i sicrhau bod twf y gwartheg ar y trywydd iawn. Ym mis Mai, roedd twf y gwartheg yn is na'r targed. Roedd y tywydd yn ffactor sylweddol gyda mis Mai yn cael ei ddominyddu gan wasgedd isel, gan ddod â chyfnodau hir o dywydd gwlyb. Parhaodd y glaswellt i dyfu'n araf ar 36kgDM/ha ym mis Mai, ac o ganlyniad i dwf araf a thywydd gwael, cwympodd y DLWG i 0.71kg. Wrth i'r tywydd wella ym mis Mehefin, cynyddodd twf glaswellt i 75kgDM/ha, a diolch i'r drefn, mae'r gwartheg wedi dychwelyd i'r targed twf o 1kg/dydd ym mis Mehefin a Gorffennaf. Mae Huw yn wynebu her arall ym mis Awst gyda thwf glaswellt yn lleihau i 7kgDM/ha yn dilyn tywydd poeth iawn a phrinder glaw. Cafodd Huw ei orfodi i fwydo gwair er mwyn ategu at y cyflenwad a'r galw. Bydd gwartheg yn cael eu pwyso eto i nodi sgil-ffaith y cyfnod heriol hwn.



Graff 1. Twf dyddiol ar Fferm Bryn a gorchudd fferm cyfartalog

Cefngwilgy Fawr: Gwella iechyd y fuches trwy ddefnyddio technoleg

Iechyd lloea yw un maes y mae Edward a Kate Jones, Cefngwilgy Fawr, yn awyddus iawn i ymdrin ag o ar ôl cael achosion o niwmonia yn eu lloea yn y gorffennol.

Mae'r fuches fagu yn Cefngwilgy Fawr yn cynnwys 50 o fuchod croes Limousin a chroes Glas Prydeinig sydd yn lloea yn y gwanwyn yn bennaf a hynny dan do ac yna yn cael eu troi allan i'r borfa.

Amcanion y Prosiect:

- Gwella iechyd a pherfformiad y lloea
- Canfod afiechyd yn gynnar a defnyddio ymyraethau pan fydd angen.
- Lleihau'r defnydd o wrthfotig

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar wella'r monitro ar iechyd y llo a sicrhau bod ymyrraeth gynnar i leihau'r achosion a'r defnydd o wrthfotig ar y fferm. Gosodwyd tag clust sy'n mesur gweithgaredd y llo a'i dymheredd ar y lloea a aned yn y gwanwyn i fonitro eu hiechyd. Dangosodd y treialon cynnar ar y system y gall ganfod afiechyd tua dau ddiwrnod cyn i arwyddion clinigol ddod i'r golwg. Trwy hyn gellir targedu'r defnydd o wrthfotig ac mae ganddo'r potensial i wella cyfraddau tyfu



a lleihau'r marwolaethau ymhlith y lloea gan fod yr afiechyd yn cael ei ganfod yn gynnar. Trwy wella cynhyrchiant, bydd yr ôl troed carbon hefyd yn cael ei leihau. Bydd yr amgylchedd yn y siediau hefyd yn cael ei fonitro trwy ddefnyddio synwryddion ar y fferm a thechnoleg LoRaWAN.

Ffigwr 1. Tag clust sy'n mesur gweithgaredd a thymheredd y llo wedi'i osod ar y lleau a aned yn y gwanwyn i fonitro eu hiechyd

Grwpiau Trafod



93 CYFARFOD
GRŴP CIG
COCH

gyda

904
O FYNICHWYR

Astudiaeth Achos

Grŵp defaid gogledd Sir Drefaldwyn

Bu'r cyfarfod yn canolbwyntio ar reoli diddyfnu gyda'r nod o sicrhau bod ŵyn yn iach ac yn hapus ar ôl cael eu diddyfnu er mwyn osgoi arafu twf ar ôl diddyfnu.

Yn ystod y cyfarfod, bu'r siaradwr gwadd, Kate Phillips (Flockhealth) yn annog aelodau'r grŵp i drafod eu profiadau o flynyddoedd blaenorol a nodi unrhyw straen a wynebir gan yr ŵyn a sut i osgoi unrhyw ddirywiad wrth diddyfnu. Gan fod y cyfarfod rhyngweithiol wedi cael ei gynnal ar fferm, cafwyd digon o drafodaeth a chwestiynau. Mae'r grŵp wedi dod yn gyfarwydd â'i gilydd, ac felly roeddent yn barod i rannu profiadau a phethau nad ydynt wedi mynd yn dda yn y gorffennol a sut maen nhw wedi dysgu o'r profiadau hynny.

Mae'n bwysig diddyfnu ŵyn ar borfeydd o ansawdd uchel sy'n glir o lyngyr. Anogwyd aelodau i gynnal cyfrif wyau ysgarthol (FEC) yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oedd y baich llyngyr yn rhy uchel ac i helpu i ganfod yr angen i roi triniaeth.

Mae diddyfnu hefyd yn gyfle da i edrych ar y mamogiaid ac i ddechrau meddwl am ddechrau'r cyfnod bridio nesaf. Bu Kate yn atgoffa'r grŵp am glefydau rhewfryn a sgorio cyflwr corff a chanfod y mamogiaid "tenau i'w difa".

E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

**DIOGELWCH
PLALADDWYR**



**CYNLLUNIO A
CHYLLID**



**AFIECHYDON AR
LYGAID DEFAID**



**NEWIDYN YR HINSAWDD
A RHEOLI TIR**




Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **338** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector Cig Coch.

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori:



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym hobb categori oedd:

Cadw Llyfrau

Rryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw

Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel

Cymorthfeydd Un i Un



CYNHALIWYD **24** CYMORTHFA

Roedd y prif bynciau yn cynnwys:

Cyfreithiol



Cyfrifeg



Cynllunio



Busnes



Marchnata ac arallgyfeirio



Mynychodd busnesau o'r sector cig coch yr holl gymorthfeydd hyn.

Rhaglen Fentora



36 O FFERMWYR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA



584 O FFERMWYR CIG COCHYN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

15 O'R UCHOD YN FFERMWYR MOCH

Roedd mentai newydd yn chwilio am arweiniad ar armywiaeth o bynciau gan gynnwys:

Cyngor ynglŷn â system cynhyrchu defaid newydd



Dechrau menter moch newydd; posibilrwydd o fagu moch ar hen goetir.



Edrych i sefydlu buches newydd o wartheg bíff gyda'r potensial o werthu blychau cig ar raddfa fechan



Cliciwch yma i agor y Cyfeiriadur Mentoriaid.

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



CYNHALIWY **16** GWEITHDY gyda



207 O FNYCHWYR

Ymwrthedd i Wrthfotigau



Deall Clefyd Johne



Cloffni mewn Defaid



Rheoli Parasitiad mewn defaid – Rhan 1: Llyngyr main a phryfed chwythu



EIP



Mapio llyngyr gan ddefnyddio eDNA i lywio'r gwaith o ddablygu mesurau rheoli cynaliadwy

Gyda chyllid gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru, mae chwe ffermwr bíff a defaid o Geredigion yn gweithio gydag IBERS, Prifysgol Aberystwyth a Phractis Milfeddygol Ystwyth yn Aberystwyth ar brosiect sy'n ymchwilio i weld a fyddai mapio llyngyr gan ddefnyddio DNA amgylcheddol (eDNA) yn gymorth i leihau lefelau llyngyr ar eu ffermydd.

Yn gynnar yn ystod 2021, casglwyd dŵr o gynefinoedd ar y chwe fferm ac yna cawsant eu hidlo gan ddefnyddio hidlwyr sy'n dal DNA ac yna eu sgrinio i ganfod presenoldeb DNA malwod y llaid. Mae canlyniadau'r prawf hwn bellach yn cael eu defnyddio i greu map manwl yn dangos ardaloedd risg o haint llyngyr ar bob un o ffermydd y prosiect, er mwyn llywio eu penderfyniadau'n ymwneud ag ardaloedd risg llyngyr a'r defaid sy'n pori'r ardaloedd hynny. Gall ymyriadau i leihau cyswllt rhwng da byw a llyngyr ar borfeydd, megis ffensio a draenio, fod yn gostus, felly dylai manylu a blaenoriaethu'r cynefinoedd hynny sy'n peri'r risg mwyaf lywio penderfyniadau yn hyn o beth, meddai Emma Jones, o ADAS, sef brocer arloesedd y prosiect.

Dr Rhys Jones, IBERS, sydd wedi bod yn arwain ar agwedd samplu a dadansoddi dŵr fel rhan o'r prosiect. Mae'n gobeithio y bydd y prosiect yn cynorthwyo ffermwyr i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â rheoli da byw, ar ôl trafod gyda'u milfeddyg, a fydd yn cynorthwyo i reoli llyngyr a lleihau dibyniaeth ar gyffur triclabendazole i reoli llyngyr yr iau. Mae ymwrthedd i triclabendazole yn fygythiad sylweddol i gynaliadwyedd cynhyrchu defaid mewn sawl rhan o'r DU, meddai Dr Jones.

"Rydym ni'n gobeithio dangos bod modd i ffermwyr fod yn rhagweithiol a chymryd camau i leihau haint llyngyr yn eu diadelloedd trwy ganfod ardaloedd lle mae haint llyngyr yn bresennol, yn hytrach na gweithredu'n ymatebol a thrin bob anifail yr un fath," meddai.

Yn ystod camau cyntaf y prosiect, cafodd nifer o ardaloedd eu nodi ar bob fferm lle'r oedd malwod y llaid yn bresennol. Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys cynefinoedd bychain yn deillio o ddraeniau wedi torri, llygaid ffynhonnau a ffosydd agored. Dywed Dr Jones fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r ffermwyr i weld sut y byddai'r ardaloedd hyn yn gallu cael eu rheoli yn y dyfodol i leihau risg llyngyr. Fodd bynnag, mae nifer o gynefinoedd mwy yn cael eu nodi yn y prosiect lle nad yw draenio neu ffensio'n ymarferol. Ond trwy brofi anifeiliaid yn rheolaidd, a rhoi triniaeth lle bo angen gan ddefnyddio cynnyrch addas, dywed Dr Jones fod ffermwyr y prosiect wedi gallu cyfyngu ar nifer yr wyau llyngyr a ollyngwyd ar y cynefinoedd malwod y llaid yn gynharach eleni.

"Dylai hyn arwain at leihau'r risg o haint llyngyr yn ystod yr hydref," meddai.

Bydd y prosiect yn parhau i 2022 gyda mwy o brofion dŵr ac anifeiliaid ar y gweill, i arwain arferion rheoli llyngyr ar bob fferm.

